# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 5**

GORFODI SAFONAU

**PENNOD 1**

YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

*Gorfodi gan lys sirol*

**90 Methiant i gydymffurfio â gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio.

(2) Caiff y Comisiynydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â'r gofyniad yn yr hysbysiad penderfynu.

(3) Yn yr adran hon ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfynu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 90 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 90 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 90.